Gefeillio Eglwys Minny Street gydag
Eglwys y Tranovato, Toamasina, Madagascar.

Ugain mlynedd yn ôl, ar 28 Hydref 1990, cynhaliwyd oedfaon arbennig ar yr un Dydd Sul yma yn Eglwys Minny Street ac Eglwys y Tranovato ym Madagascar i efeillio'r ddwy eglwys. Y Parchedig Ieuan Davies oedd ein gweinidog ni ar y pryd, ac yn ein plith, yn aelod blaengar, roedd Miss Mair Griffiths, a hithau wedi ymddeol a dod adref i Minny Street ar ôl cyfnod llewyrchus yn genhades-brifathrawes ar ysgol i ferched yn un o ddinasoedd yr Ynys Fawr. Y Parchedig Eleri Edwards oedd yn ein cynrychioli ni yn y Tranovato a dyma'r ddwy eglwys yn ymrwymo i efeillio â'i gilydd gyda'r un geiriau, sef "*Ymgyfamodwn trwy gymorth Duw, i gyflawni orau gallwn holl oblygiadau'r gefeillio hwn, a hynny mewn gair, gweddi a gweithred. Gwnawn hyn yn enw ein Harglwydd Iesu Grist*".

Yn fuan wedyn, daeth Alfred, Gweinidog y Tranovato, a'i briod Simone, atom am rai wythnosau a mwynhau croeso ar aelwyd Mair Griffiths ac ar aelwyd ein Gweinidog, a mwynhau cwmni llawer iawn o'n haelodau. Yn Awst 1993 gwahoddwyd Havard a finnau i fynd allan i Fadagascar i gynrychioli'r Eglwys ac Undeb yr Annibynwyr. 'Roedd honno'n flwyddyn o ddathlu ym Madagascar: 25 mlynedd sefydlu'r FJKM, sef Undeb Anghydffurfwyr yr Ynys, a 175 mlynedd glanio'r cenhadon, David Jones a Tomos Bevan ym 1818. Ar ôl dychwelyd cafwyd adroddiadau sylweddol ar lafar ac ar ffilm i aelodau Minny Street a llawer o gapeli eraill yn rhoi hanes y daith a darlun o gyflwr bywyd y bobol ym Madagascar.

Yn syth wedi'r gefeillio dechreuwyd anfon arian i'r Tranovato er mwyn sefydlu Gweithdy. Fe'i codwyd a chafodd yr enw Gweithdy David Jones a Tomos Bevan. Pwrpas y fenter oedd gallu cynnig hyfforddiant i bobl ifanc o gefn gwlad fel y gallent ddefnyddio eu sgiliau newydd i ennill bywoliaeth. Prynwyd offer pwrpasol i ddysgu gwyddor ty a gwneud dillad i'r merched, a hefyd peiriannau i hyfforddi bechgyn i drwsio ceir ac yn y blaen. Cawsom weld y gwaith oedd yn cael ei wneud a gweld bod y bobl ifanc yn elwa ar yr hyfforddiant yn y Gweithdy.

Dros y blynyddoedd buom yn anfon arian i Eglwys y Tranovato ond daeth yr amser pan ymddeolodd Alfred, ac aeth ef a Simone i'r brifddinas lle'r oedd ganddynt deulu a sefydlwyd gweinidog newydd yn ei le. Ond bu'r eglwys heb Weinidog am gyfnod lled hir cyn hynny, a bu terfysg yn sgil y newid yn llywodraeth yr ynys. Er mawr dristwch inni mae pob ymdrech i gynnal perthynas gydag Eglwys y Tranovato ac i ddod i adnabod y Gweinidog newydd wedi methu. Mae'n wir bod cyfathrebu a phobl ym Madagascar yn gallu bod yn anodd, ond 'rydym ni'n cael galwadau ffôn a llythyron oddi yno. Bu plant yr Ysgol Sul yn anfon eu dymuniadau da adeg y Nadolig a bu Hefin Jones yn ddygn wrthi yn ceisio cynnal y berthynas. Daeth Charnette, aelod o Eglwys y Tranovato, i aros gyda ni gyda Theresa Haine, cydlynydd yr elusen annibynnol *Money for Madagascar*, a sefydlwyd gan Grynwyr Abertawe ym 1986, ac sydd wedi gwneud gwaith rhyfeddol yn yr Ynys Fawr, ond parhau wnaeth yr anawsterau cyfathrebu ac ni chlywsom air oddi wrth y Gweinidog yno. Mae'r cyfan yn ddirgelwch inni.

Mewn Cwrdd Eglwys ychydig wythnosau yn ôl buom yn trafod dwyn y gefeillio i ben. Cawsom gyfle i dalu teyrnged i'n Gweinidog ni, Owain Llyr, am ei gefnogaeth ac am ei ymdrechion yntau i ddwyn perswad ar ein cyfeillion yn y Tranovato i gynnal y berthynas, ond ofer fu'r holl ymdrechion. Penderfynasom y buasem o hyn allan yn cefnogi *Money for Madagascar* yn eu gwaith

nhw. Mae ganddynt rwydwaith o gynorthwywyr ar draws yr ynys ac maent yn gwneud gwaith ardderchog yn y carchardai, yr ysbytai, yr ysgolion ac yng nghefn gwlad.

Pan fuom yn ystyried gefeillio gydag Eglwys y Tranovato ym 1987, tair blynedd cyn y gefeillio, y Parchedig Eifion Powell oedd ein gweinidog, ac ef fu'n llywio'r fenter. Teimlwn ei bod yn addas mai yn yr un Cwrdd Eglwys y cytunwyd i osod carreg goffa er cof am Eifion ar fur y capel ag y penderfynwyd dirwyn y berthynas ffurfiol gydag Eglwys y Tranovato i ben.

Havard a Rhainnon Gregory